**DATGANIAD I'R WASG**

**PRESS RELEASE**

menteriaith
SIR Y FFLINT

*Shrek, Avatar, How to Train Your Dragon* ... dydi animeiddio byth wedi bod mor boblogaidd!
Rŵan, diolch i Fenter Iaith  Sir y Fflint, yr Urdd a Rhaglen Dysgu Gydol Oes Cadw,  mae criw o bobl ifanc o Sir y Fflint wedi cael y cyfle i ddod yn animeiddwyr ac i greu ffilm eu hunain! Ar Ebrill yr 17eg a'r 18fed cymerodd plant  lleol rhan mewn gweithdai hyfforddi animeiddio 'Caneuon o'r Cerrig'. Gweithiodd y plant gyda'r tiwtor animeiddio Sean Harris a'r addysgwr cerddorol Dylan Adams i ddysgu sut i greu ffilm 'stop motion' a sut i recordio a golygu trac sain. Ar Dydd Sul roedd yna ymweliad i gastell y Fflint, lle cafodd y plant eu hysbrydoli gan un o dirnodau enwocaf y sir.

Meddai  Rebecca Davies, Swyddog Iaith a Threftadaeth Menter Iaith roedd "pawb a gymerodd rhan yn y gweithdai wedi dysgu llawer o sgiliau newydd a chael llawer o hwyl. Roedd y gweithdai yn fan cychwyn ardderchog i'n grŵp animeiddio. Bydd yna lawer o waith i wneud i greu'r gwaith celf a'r bwrdd stori yn ogystal â'r animeiddio, recordio sain a golygu, ond bydd creu'r ffilm yn broses cyffrous!"
Ychwanegodd, "Rydym mor falch bod Cadw wedi cynnwys ni fel rhan o'r prosiect 'Caneuon o'r Cerrig'. Bydd y

*Shrek, Avatar, How to Train Your Dragon* ... Animation has never been more popular! Now, thanks to Menter Iaith Sir y Fflint, the Urdd and Cadw's Lifelong Learning Programme, a group of youngsters from Flintshire will have the opportunity to become animators and make their very own film!
On April the 17th and 18th local children took part in bilingual 'Songs From Stones' animation training workshops. Animation tutor Sean Harris and music educator Dylan Adams taught children how to use the sound and animation software to create stop-motion films and record and edit soundtracks. On the Sunday there was a visit to Flint castle, where the children drew inspiration from one of Flintshire's most famous landmarks.

Menter Iaith's Language and Heritage Officer Rebecca Davies said, "Everybody involved in the workshops learned new skills and had lots of fun. The weekend was a great starting point for our animation group. There's going to be a lot of work involved designing the art work, storyboarding, animating, recording music and editing, but making the film will be a really exciting process!"
She added, "We're really pleased that Cadw allowed us to take part in the

| | |
|---|---|
| plant yn ein grŵp cymunedol yn dysgu sgiliau technoleg gwerthfawr, a hefyd yn cael profiad o weithio'n ddwyieithog; dau beth o fantais fawr os ydych eisiau gweithio o fewn y cyfryngau Cymraeg - ac yn sicr mae yna bobl ifanc yn y grŵp yma sydd hefo dyfodol disglair yn y diwydiant."<br><br>Trefnwyd y grwp gan Fenter Iaith Sir y Fflint fel rhan o'i phrosiect Iaith a Threftadaeth gyda chymorth y Cynllun Datblygu Gwledig i Gymru 2007-2013 a gyllidwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Datblygiad Gwledig.<br>Bydd y grwp yn cyfarfod yn gyson i weithio ar y prosiect, a bydd y ffilm orffenedig yn cael ei arddangos mewn premier yn Theatr Twm o'r Nant, Dinbych, ym mis Gorffennaf.<br><br>Am fwy o wybodaeth, cysylltwch gyda Rebecca Davies ar 01352 744042 neu e-bostio rebecca@menteriaithsiryfflint.co.uk | 'Songs From Stones' project. The children in our community group will learn valauble technological skills and have experience of working bilingually; both of which are great advantages if you want to work in the Welsh media – and there are certainly young people in this group who have a bright future in the industry."<br><br>The group has been organised by Menter Iaith Sir y Fflint , as part of their Language and Heritage project with the aid of the Rural Development Plan for Wales 2007-2013 which is funded by the Welsh Assembly Government and the European Agricultural Fund for Rural Development. It will meet up regularly to continue working on their project, and the finished film will be shown at a premier at Theatr Twm o'r Nant, Denbigh, in July.<br><br>For more information, contact Rebecca Davies on 01352 744042 or e-mail rebecca@menteriaithsiryfflint.co.uk |